*This document is available in English*

**Eitem ar yr Agenda 7**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** | |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2019** | |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd yr Awdurdod** | |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur (01745 535286)** | |
| Pwnc | **Ail-gymeradwyo Datganiad o Gyfrifon 2017/18** | |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno datganiad archwiliedig o gyfrifon 2017/18, sy'n cynnwys y datganiad llywodraethu, i'r Aelodau ei ail-gymeradwyo.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Cafodd y cyfrifon archwiliedig a'r datganiad llywodraethu eu cymeradwyo yn wreiddiol yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 17 Medi 2018. Yn y cyfarfod hwnnw, fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru amlinellu ei bwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod ond nid oedd yn gallu rhoi'r dystysgrif archwilio oherwydd problem gyda chymhwyso Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

3 Mae'r mater wedi cael ei ddatrys yn foddhaol erbyn hyn, ac i gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio), rhaid i'r cyfrifon archwiliedig a'r llythyr sylwadau gael eu hail-gymeradwyo gan yr Aelodau.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) ail-gymeradwyo'r datganiad o gyfrifon a'r datganiad llywodraethu blynyddol ar gyfer 2017-18; maen nhw yn atodiad 1;

(ii) ail-gymeradwyo'r llythyr sylwadau sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 2;

(iii) nodi'r adroddiad a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 3;

(iv) nodi Llythyr Archwilio Blynyddol 2017/18 a luniwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru sydd wedi'i gynnwys yn atodiad 4.

**CEFNDIR**

5 Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2010, bu i'r Awdurdod baratoi datganiad o gyfrifon a datganiad llywodraethu ar gyfer 2017/18 ac roedd y ddau yn destun archwiliad allanol.

6 Fe wnaeth Swyddfa Archwilio Cymru orffen ei waith ym mis Medi 2018 a chadarnhau ei bwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamod. Nid oedd yn gallu rhoi'r dystysgrif archwilio ar y pryd oherwydd bod problem o hyd o ran gweithredu Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2014 (y Gorchymyn).

7 Roedd y Gorchymyn yn cynnwys newid i'r rheoliadau pensiwn a oedd yn cyflwyno pwerau newydd i'r Awdurdod allu gwneud rhai lwfansau a thaliadau dros dro yn rhai pensiynadwy dan drefniant Budd Pensiwn Ychwanegol.

8 Yn ystod Tachwedd 2017, daeth yn amlwg nad oedd Awdurdodau Tân ac Achub Cymru wedi gweithredu'r Gorchymyn ac roedd lwfansau dros dro wedi cael eu trin yn unol â'r rheoliadau blaenorol.

9 Gweithredwyd y Gorchymyn o 1 Gorffennaf 2018 er fod nifer fach o bobl wedi ymddeol ac wedi cael setliadau pensiwn heb fod yn cyd-fynd â'r rheoliadau perthnasol.

10 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i bodloni bod yr Awdurdod wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r mater ac mae nawr mewn sefyllfa i roi'r dystysgrif archwilio. I gydymffurfio â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2010 rhaid i'r cyfrifon gael eu hail-gymeradwyo gan yr Aelodau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae cysylltiad rhwng yr adroddiad hwn ag amcanion llesiant tymor hir ATAGC. Mae'n adrodd ynghylch hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r datganiad archwiliedig o gyfrifon yn cynnwys yr incwm a gwariant gwirioneddol o gymharu â'r gyllideb, ac mae'n cadarnhau'r farn archwilio ynglŷn ag a ydyw'n darparu golwg gwir a theg o berfformiad a sefyllfa ariannol yr Awdurdod ai peidio. |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer llunio'r cyfrifon ar gael yn nhudalen 1 o'r Datganiad o Gyfrifon. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Os nad yw'r cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â'r cod ymarfer, mae'n bosibl na fydd y cyfrifon yn darparu golwg gwir a theg. |